# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Paul Lloyd | Adran Etholiadol: | Bonymaen |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliwyd cymorthfeydd 3 gwaith y mis.

Roeddwn yn aml yn mynd am dro i weld y materion yn y ward ac i gwrdd ag etholwyr.

Gweithiais gyda'r heddlu i fynd i'r afael â beiciau modur oddi ar yr heol a oedd yn achosi niwsans yn y ward.

Gweithiais gydag adrannau'r cyngor i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn y ward.

Roeddwn yn rhan o ymgyrch ar y cyd â Chynghorwyr Llansamlet er mwyn ceisio gwelliannau yn nibynadwyedd gwasanaeth bws ar dendr.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 11 | / | 12 | 92 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 11 | / | 12 | 92 | % |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 4 | / | 6 | 67 | % |
| Y cyngor | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 8 | / | 8 | 100 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu | 11 | / | 15 | 73 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu | 3 | / | 3 | 100 | % |
| CYFFREDINOL | 62 | / | 71 | 87 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Yn ystod y flwyddyn ddinesig 2013-2014, fi oedd Is-gadeirydd Fforwm Rheilffordd Calon Cymru.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Gweithiais gyda Chlwb Rygbi Bonymaen, Ysgol Gymunedol a Chanolfan Hamdden Cefn Hengoed i sicrhau cyd-ddefnydd o'r cyfleusterau.

Gweithiais gydag Aelod a swyddogion perthnasol y Cabinet hefyd i wella Canolfan Hamdden Cefn Hengoed.

Roeddwn yn aelod o ymgyrch Credyd Teg Bae Abertawe i gynyddu ymwybyddiaeth o fenthycwyr llog uchel.

Yn ychwanegol, roeddwn yn rhan o sefydlu Cronfa Fwyd Eastside yn Eglwys Mount Zion, Heol Mansel, Bonymaen. Gwirfoddolwr.

## Adran 5: Dysgu a Datblygu

Euthum i'r holl sesiynau hyfforddiant pan gefais f'ethol yn 2012, e.e. cynllunio a newidiadau arfaethedig i gyfraith cynllunio, sgiliau cadeirio a rheolau newydd y Bathodyn Glas. Yn ychwanegol, rwyf wedi addysgu rhywfaint o'r hyfforddiant a oedd ar gael trwy'r cyngor, e.e. arweinyddiaeth, sgiliau pwyllgor, sgiliau cyfarfod, sgiliau gwrando, sgiliau cyfweld etc. Rwyf hefyd wedi mynd i lawer o gyrsiau hyfforddiant llywodraethwyr ysgol yn Ysgol Cefn Hengoed.

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Cynhaliwyd cymorthfeydd cynghorydd 3 gwaith y mis, wedi'u hysbysebu mewn siopau etc. trwy gydol y ward ac yn y papur newydd lleol.

Euthum i gyfarfodydd PACT a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Illtyd Sant. Roeddwn yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Cwm Glas ac yn Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed.

Euthum i gyfarfodydd Cymunedau'n Gyntaf ac roeddwn yn aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Bonymaen.

Ymgyrchais i wella cludiant cyhoeddus yn y ward a helpais gyda'r ymgyrch llwybrau cerdded diogel i'r ysgol.

Fi oedd Cadeirydd Canolfan Gymunedol Gellifedw a Chadeirydd Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol y Glais.

## Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad:** | 14.05.14 |
|---|---|